# RHEOLAU'R CYNGOR OPTEGOL CYFFREDINOL (APELIADAU COFRESTU) 2005

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol, wrth ymarfer ei bwerau dan adrannau 10, 23C, 23D(7), 23E(8) a 31A Deddf Optegwyr 1989, ar ôl ymgynghori â'r sefydliadau hynny sy'n cynrychioli buddiannau cofrestreion y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn briodol, drwy hyn yn gwneud y Rheolau canlynol:

## RHAN 1

## ENWI, CYCHWYN A DEHONGLIAD Enwi a chychwyn

1. Cyfeirir at y Rheolau hyn fel Rheolau'r Cyngor Optegol Cyffredinol (Apeliadau Cofrestru) 2005 a ddaw i rym ar 30 Mehefin 2005.

### Dehongliad

2. (1) Yn y Rheolau hyn -

ystyr "apelydd" yw -

(a) person sy'n gwneud apêl o dan baragraff 4(1) o Atodlen 1A (apeliadau yn erbyn penderfyniad cofrestru apeliadwy); a

(b) mewn perthynas â gwrandawiad, mae'n cynnwys unrhyw gynrychiolydd i'r person hwnnw sy'n bresennol mewn gwrandawiad yn unol â darpariaethau rheol 14(2);

ystyr "ymgeisydd" yw -

(a) person sy'n gwneud cais am adfer cofrestriad o dan adran 13K(1) (sy'n darparu ar gyfer adfer cofrestriad yn dilyn dileu cofrestriad neu ddileu cofnod sy'n ymwneud ag arbenigedd ar gyfarwyddyd gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer); a

(b) mewn perthynas â gwrandawiad, mae'n cynnwys unrhyw gynrychiolydd i'r person hwnnw sy'n bresennol mewn gwrandawiad yn unol â darpariaethau rheol 14(2);

ystyr "cynghorydd clinigol" yw cynghorydd clinigol a benodir o dan adran 23E(1)(a) (cynghorwyr eraill);

ystyr "y Cyngor" yw'r Cyngor Optegol Cyffredinol;

Mae "Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer" yn golygu'r Pwyllgor y cyfeirir ato yn adran 5C(1) (y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer);

mae "gwrandawiad" yn golygu gwrandawiad gan y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru i benderfynu -

(a) ar apêl a wneir o dan baragraff 4(1) Atodlen 1A; neu

(b) p'un ai i roi cyfarwyddyd o dan adran 13K(6) i'r cofrestrydd adfer enw'r cofrestrai ar y gofrestr neu enw'r cofrestrai mewn perthynas ag arbenigedd;

ystyr "cynghorydd cyfreithiol" yw cynghorydd cyfreithiol a benodir o dan adran

23D(1) (cynghorwyr cyfreithiol); ystyr “cyfeiriad practis” yw -

(a) mewn perthynas ag unigolyn, cyfeiriad practis neu fan busnes y mae'n ymarfer proffesiwn optometrydd neu optegydd cyflenwi, ac eithrio cyfeiriad lle mae'n ymarfer y proffesiwn hwnnw -

(i) dim ond mewn argyfwng,

(ii) yn lle cofrestrai unigol sy'n sâl neu ar wyliau,

(iii) fel ymarferydd sy'n ymweld sy'n ennill ffi, neu

(iv) am lai na deuddeg diwrnod mewn unrhyw flwyddyn;

(b) mewn perthynas â chorff corfforedig, cyfeiriad unrhyw bractis neu fan busnes ble mae'n cynnal busnes optometrydd neu optegydd cyflenwi, neu'r ddau;

mae "cofrestrydd", mewn perthynas
â gwrandawiad -

(a) yn cynnwys unrhyw gynrychiolydd i'r cofrestrai sy'n bresennol yn y gwrandawiad yn unol â darpariaethau rheol 14(2) neu (3); ac

(b) yn golygu, at ddibenion cyflwyno unrhyw hysbysiad neu rybudd arall o dan y Rheolau hyn neu ddarparu gwybodaeth, person y mae'r cofrestrydd wedi ei hysbysu sydd wedi ei gyfarwyddo i'w gynrychioli;

ystyr "cofrestrydd" ac eithrio yn rheol 7(2)(d)(ii) yw cofrestrydd y Cyngor y cyfeirir ato yn adran 1(3) (cyfansoddiad a swyddogaethau'r Cyngor);

ystyr "Pwyllgor Apeliadau Cofrestru" yw'r Pwyllgor y cyfeirir ato yn adran 5A(1) (y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru);

ystyr "corff rheoleiddio" yw corff rheoleiddiol sydd â'r swyddogaeth o awdurdodi personau i ymarfer fel aelodau o broffesiwn iechyd neu ofal cymdeithasol;

"ymatebydd" -

(a) mewn perthynas ag apêl a wneir o dan baragraff 4(1) o Atodlen 1A, yw'r cofrestrydd neu'r Cyngor (yn ôl y digwydd);

(b) mewn perthynas â chais o dan adran 13K(1) i adfer cofrestriad neu adfer cofnod cofrestrai mewn perthynas ag arbenigedd, yw'r Cyngor;

ystyr "cynghorydd arbenigol" yw cynghorydd arbenigol a benodir o dan adran 23E(1)(b); ac

ystyr "arbenigedd" yw arbenigedd neu lefel hyfedredd, y gall manylion amdano, yn rhinwedd rheol 10 o Reolau'r Cyngor Optegol Cyffredinol (Cofrestru) 2005, gael eu cofnodi mewn cofrestr yn erbyn enw'r cofrestrai.

(2) Yn y Rheolau hyn mae unrhyw gyfeiriad at adran â rhif, neu at Atodlen â rhif, yn gyfeiriad at yr adran o Ddeddf Optegwyr 1989, neu'r Atodlen iddi, sy'n dwyn y rhif hwnnw.

## RHAN 2

## CEISIADAU AR GYFER ADFER YN DILYN DILEU COFRESTRIAD NEU DDILEU COFNOD SY'N YMWNEUD AG ARBENIGEDD

### Gwybodaeth i gyd-fynd â cheisiadau i adfer cofrestriad neu gofnod

3. (1) Mae'r rheol hon yn gymwys i gais o dan adran 13K (sy'n darparu ar gyfer adfer cofrestriad yn dilyn dileu cofrestriad neu ddileu cofnod sy'n ymwneud ag arbenigedd ar gyfarwyddyd gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer).

(2) Rhaid i'r cais gael ei gyflwyno i'r cofrestrydd ar ffurf (gan gynnwys electronig) a bennir gan y Cyngor, ynghyd ag -

(a) unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol o dan reolau 4 i 8; ac

(b) unrhyw ffi cais a ragnodir gan y Cyngor mewn perthynas â cheisiadau o'r disgrifiad hwnnw o dan adran 10(1)(c)(i) neu adran 10(1A)(d) (darpariaethau cyffredinol ar gyfer cofrestrau)).

### Gwybodaeth sy'n ofynnol gan ymgeiswyr unigol ar gyfer adfer cofrestriad

4. Rhaid i gais o dan adran 13K i adfer cofrestriad ymgeisydd fel cofrestrai unigol gynnwys -

(a) enw llawn yr ymgeisydd;

(b) eu henwau blaenorol, os

oes rhai;

(c) eu dyddiad geni;

(d) datganiad ynghylch -

(i) a oes ganddynt unrhyw euogfarnau (gan gynnwys euogfarn gan lys milwrol) neu rybuddion ar Ynysoedd Prydain am drosedd, neu euogfarn yn rhywle arall am drosedd a fyddai, pe bai'n cael ei chyflawni yng Nghymru neu Loegr, yn drosedd,

(ii) a yw erioed wedi derbyn cynnig amodol o dan Adran 302 Deddf Trefniadaeth Droseddol (yr Alban) 1995 (cosb benodedig: cynnig amodol gan y procuradur ffisgal) neu wedi cytuno i dalu dirwy o dan Adran 115A Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (dirwy yn lle erlyniad),

(iii) mewn achos llys yn yr Alban am drosedd, wedi bod yn destun gorchymyn o dan Adran 246(2) neu (3) Deddf Trefniadaeth Droseddol (yr Alban) 1995 i'w rhyddhau'n ddiamod,

(iv) a yw'n destun unrhyw benderfyniad gan gorff yn y Deyrnas Unedig sy'n gyfrifol o dan unrhyw ddeddfiad am reoleiddio proffesiwn iechyd neu ofal cymdeithasol i'r graddau y mae ei

.

addasrwydd i ymarfer fel aelod o’r proffesiwn hwnnw wedi’i amharu, neu benderfyniad gan gorff rheoleiddio y tu allan i’r Deyrnas Unedig i’r un perwyl, neu

(v) mae ar hyn o bryd yn destun archwiliad neu achos allai arwain at unrhyw un o’r canlyniadau a nodir yn is-baragraffau (i) i (iv);

(e) yn unrhyw achos mewn perthynas â pharagraff (d), manylion am unrhyw ymchwiliadau (yn cynnwys bras ddyddiadau), y man lle cynhelir neu y cynhaliwyd unrhyw achos perthnasol, a phan fo’n bosibl, y canlyniad;

(f) manylion unrhyw iechyd corfforol neu feddyliol andwyol y byddai person rhesymol yn meddwl y gallai amharu ar ei addasrwydd i ymarfer; a

(g) llun sydd wedi’i lofnodi a’i ddyddio gan -

(i) optometrydd cofrestredig neu optegydd cyflenwi cofrestredig,

(ii) ymarferydd meddygol cofrestredig,

(iii) twrnai neu fargyfreithiwr,

(iv) ynad heddwch,

(v) cyfrifydd,

(vi) pennaeth sefydliad addysgol a roddodd gymhwyster perthnasol i’r ymgeisydd neu’n berson a awdurdodir gan bennaeth y sefydliad hwnnw, neu

(vii) berson arall o statws tebyg yn y gymuned,

sy’n adnabod yr ymgeisydd ers o leiaf ddwy flynedd ac sy’n ardystio bod y ffotograff yn dangos gwir debygrwydd i’r ymgeisydd.

**Gwybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol gan ymgeiswyr unigol ar gyfer adfer cofrestriad fel myfyriwr**

5. Yn ogystal â'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan reol 4, bydd cais i adfer cofrestriad ymgeisydd fel myfyriwr sy'n ymgymryd â hyfforddiant fel optometrydd neu optegydd cyflenwi hefyd yn cynnwys -

(a) cyfeiriad cyswllt ar gyfer yr ymgeisydd;

(b) os yw’n bwriadu cael addysg neu hyfforddiant fel optometrydd neu optegydd cyflenwi mewn sefydliad lle rhoddir cyfarwyddyd, enw a chyfeiriad y sefydliad hwnnw; ac

(c) os yw, fel rhan o’r addysg neu’r hyfforddiant, yn bwriadu ymgymryd â phrofiad ymarferol yng ngwaith optometrydd neu optegydd cyflenwi -

(i) enw llawn yr holl bersonau a all weithredu fel ei oruchwylwyr (os caniateir ei gais am adferiad ac os yw’r enwau’n hysbys),

(ii) cyfeiriad cyswllt ar gyfer goruchwylwyr o’r fath,

.

.

(iii) os yw’n berthnasol, arwydd o’r enw masnachu y mae’r goruchwylwyr hynny’n ymarfer neu’n cael eu cyflogi oddi tano, a’r

(iv) holl gyfeiriadau practisau y mae’r ymgeisydd yn bwriadu eu defnyddio i gael y profiad hwnnw.

**Gwybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol gan ymgeiswyr unigol ar gyfer adfer cofrestriad fel optometrydd neu optegydd cyflenwi**

6. Yn ogystal â'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan reol 4, bydd cais i adfer cofrestriad ymgeisydd fel optometrydd neu optegydd cyflenwi hefyd yn cynnwys -

(a) cyfeiriad cyswllt ar gyfer yr ymgeisydd;

(b) arwydd o p’un ai yw’r cyfeiriad cyswllt a ddarparwyd o dan baragraff (a) yn gyfeiriad practis arfaethedig ac -

(i) os ydyw, naill ai’r enw masnachu y mae’r ceisydd yn bwriadu ymarfer oddi tano yn y cyfeiriad hwnnw neu’r enw y mae ei gyflogwr yn ymgymryd â busnes optometrydd neu optegydd cyflenwi (neu’r ddau) oddi tano; a

(ii) holl gyfeiriadau practisau arfaethedig yr ymgeisydd, ac eithrio’r cyfeiriad cyswllt, ynghyd, ym mhob achos, ag arwydd o’r enw masnachu, os o gwbl, y mae’r ymgeisydd yn bwriadu ymarfer oddi tano ym mhob cyfeiriad;

(c) tystiolaeth, petai’r enw hwn yn cael gofnodi yn y gofrestr, y byddai’n cael ei ddiogelu gan bolisi yswiriant at ddibenion cydymffurfio ag adran 10A (yswiriant ar gyfer cofrestreion unigol a phersonau sy’n gwneud cais i’w henwau gael eu cofrestru); a

(d) copi o’r polisi yswiriant hwnnw neu ffordd o ganfod telerau’r polisi a fydd yn eu diogelu, ynghyd ag unrhyw rif sydd gan y polisi a’i ddyddiad dod i ben.

**Gwybodaeth sy’n ofynnol gan ymgeiswyr ar gyfer adfer cofrestriad fel cofrestrai busnes**

7. (1) Rhaid i gais o dan adran 13K i adfer cofrestriad ceisydd fel corff corfforedig sy’n cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi (neu'r ddau) gynnwys y wybodaeth ganlynol -

(a) enw’r ceisydd;

(b) enwau blaenorol y ceisydd, os oes rhai;

(c) dyddiad corffori’r ceisydd (os yw’n berthnasol);

(d) os nad yw is-baragraff (c) yn berthnasol, y dyddiad y dechreuodd y ceisydd fasnachu;

(e) rhif cofrestru cwmni’r ceisydd (os yw’n berthnasol);

(f) cyfeiriad cofrestredig ar gyfer y ceisydd neu, os nad oes ganddynt un, cyfeiriad cyswllt, ynghyd ag arwydd o -

.

(i) p’un ai yw hwn yn gyfeiriad practis, ac

(ii) os ydyw, yr enw masnachu y mae’r ceisydd yn cynnal y cyfryw fusnes oddi tano yn y cyfeiriad hwnnw;

(g) holl gyfeiriadau practis y ceisydd, ac eithrio’r cyfeiriad a ddarperir o dan is-baragraff (f), ynghyd ag arwydd o’r enw masnachu y mae’r ceisydd yn ymarfer oddi tano ym mhob cyfeiriad;

(h) datganiad, a wnaed ar ran y ceisydd, ynghylch a oes ganddynt neu unrhyw un o’i gyfarwyddwyr -

(i) euogfarnau (gan gynnwys euogfarn gan lys milwrol) neu rybuddion ar Ynysoedd Prydain am drosedd, neu euogfarn yn rhywle arall am drosedd a fyddai, pe bai’n cael ei chyflawni yng Nghymru neu Loegr, yn drosedd,

(ii) a yw erioed wedi derbyn cynnig amodol o dan Adran 302 Deddf Trefniadaeth Droseddol (yr Alban) 1995 (cosb benodedig: cynnig amodol gan y procuradur ffisgal) neu wedi cytuno i dalu dirwy o dan Adran 115A Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (dirwy yn lle erlyniad),

(iii) mewn achos llys yn yr Alban am drosedd, wedi bod yn destun gorchymyn o dan Adran 246(2) neu (3) Deddf Trefniadaeth Droseddol (yr Alban) 1995 i’w rhyddhau’n ddiamod,

(iv) a yw’n destun unrhyw benderfyniad gan gorff yn y Deyrnas Unedig sy’n gyfrifol o dan unrhyw ddeddfiad am reoleiddio proffesiwn iechyd neu ofal cymdeithasol i’r graddau y mae -

(aa) addasrwydd y cofrestrai busnes i gynnal busnes fel aelod o’r proffesiwn hwnnw wedi’i amharu; neu

(bb) mae addasrwydd cyfarwyddwr y corff corfforedig i ymarfer yn y proffesiwn hwnnw wedi’i amharu,

neu ddyfarniad gan gorff rheoleiddio y tu allan i’r Deyrnas Unedig i’r un perwyl, neu

(v) mae ar hyn o bryd yn destun archwiliad neu achos allai arwain at unrhyw un o’r canlyniadau a nodir ym mharagraffau (i) i (iv);

(i) yn unrhyw achos mewn perthynas ag is-baragraff (h), manylion am unrhyw ymchwiliadau (yn cynnwys bras ddyddiadau), y man lle cynhelir neu y cynhaliwyd unrhyw achos perthnasol, a phan fo’n bosibl, y canlyniad; a’r

(j) wybodaeth sy'n ofynnol gan baragraff (2). (2)

Y wybodaeth sy'n ofynnol gan y paragraff hwn yw -

(a) yn achos cais a wneir yn ddibynnol ar adran 9(2)(a) (cofrestr o gyrff corfforedig sy'n rhedeg busnes fel optegwyr) -

(i) os yw'n berthnasol, copi o adroddiad diweddaraf y cyfarwyddwr a gynhyrchwyd yn unol ag adran 234 Deddf Cwmnïau 1985 (dyletswydd i baratoi adroddiad cyfarwyddwyr), ac

(ii) enwau a chyfeiriadau pob cyfarwyddwr ac, os yw'n berthnasol, eu rhifau cofrestru fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi;

(b) yn achos cais a wneir yn ddibynnol ar adran 9(2)(b), tystysgrif a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol -

(i) bod enw'r ceisydd, ar 20 Tachwedd 1957, neu enw y cynhaliodd fusnes oddi tano, wedi ei gynnwys yn un o restrau offthalmig y gwasanaeth iechyd, neu

(ii) os daeth y ceisydd i fodolaeth wedyn ar ôl i gorff corfforedig gael ei ailffurfio, bod ganddo hawl i gael ei gofrestru yn rhinwedd adran 9(2)(b),

(c) yn achos cais a wneir yn ddibynnol ar adran 9(2)(c) -

(i) tystysgrif a roddwyd gan gyfrifydd y ceisydd bod y rhan fwyaf o'i fusnes yn cynnwys gweithgareddau heblaw profi golwg a gosod a chyflenwi cyfarpar optegol, ynghyd ag -

(aa) enw'r optometrydd cofrestredig y mae'r profion golwg yn cael ei gynnal o dan ei reolaeth, neu

(bb) enw'r optometrydd cofrestredig neu'r optegydd cyflenwi cofrestredig y mae busnes gosod a chyflenwi cyfarpar optegol yn cael ei redeg o dan ei reolaeth,

(ii) tystysgrif a roddwyd gan y ceisydd sy'n dangos bod y rhan honno o'i fusnes sy'n cynnwys profi golwg yn cael ei gynnal dan reolaeth optometrydd cofrestredig, a

(Iii) tystysgrif a roddwyd gan y ceisydd bod y rhan honno o'i fusnes sy'n cynnwys gosod a chyflenwi offer optegol yn cael ei gynnal dan reolaeth optometrydd cofrestredig neu optegydd cyflenwi cofrestredig; neu

(d) yn achos cais a wneir yn ddibynnol ar adran 9(2)(d) -

(i) tystysgrif a ddisgrifir yn is-baragraff (c)(ii) a (iii), a

(ii) chopi o'r gydnabyddiaeth cofrestru a roddwyd gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol o dan adran 2(3)

.

Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 neu'r cofrestrydd o dan adran 2(3) Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus Gogledd Iwerddon 1969.

**Gwybodaeth sy'n ofynnol gan ymgeiswyr ar gyfer adfer cofnod sy'n ymwneud ag arbenigedd**

8. Rhaid i gais o dan adran 13K i adfer cofnod sy'n ymwneud ag arbenigedd -

(a) os nad yw'r ceisydd wedi ei gofrestru, gael ei wneud ar yr un pryd â chais o dan adran 13K i adfer cofrestriad y ceisydd; neu

(b) pan fo'r ceisydd wedi ei gofrestru, gynnwys ei rif cofrestru.

## RHAN 3

## ASESU APELYDDION UNIGOL NEU YMGEISWYR UNIGOL

**Penodi aseswyr a chyfarwyddyd ar gyfer asesu**

9. (1) Caiff y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru -

(a) benodi un neu ragor o bersonau i asesu ac adrodd iddynt ar -

(i) iechyd yr apelydd neu'r ceisydd, neu

(ii) safon neu ansawdd y gwaith a wnaed neu a wneir gan yr apelydd neu'r ceisydd; a

(b) chyfarwyddo'r apelydd neu'r ceisydd i gwrdd â'r person neu'r personau a benodwyd ac i gyflwyno i unrhyw archwiliad sy'n ofynnol at ddibenion eu hasesiad a'u hadroddiad.

(2) Pan fo'r Pwyllgor yn rhoi cyfarwyddyd o dan baragraff (1)(b), rhaid iddo bennu'r materion y mae'r apelydd neu'r ceisydd i'w asesu arnynt.

(3) Ni fydd y Rheol hon yn berthnasol i apelydd neu ymgeisydd sy'n gorff corfforedig.

**Hysbysiad asesu**

10. Pan fo'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru wedi penodi asesydd o dan reol 9, rhaid i'r cofrestrydd -

(a) gyflwyno i'r apelydd neu'r ceisydd hysbysiad o benodiad y Pwyllgor;

(b) pennu dyddiad y cyfarfod gyda'r asesydd; a

(c) gyflwyno i'r apelydd neu'r ceisydd, ac i'r asesydd, hysbysiad o

(i) ddyddiad y cyfarfod, a'r

(ii) cyfarwyddyd y mae'r Pwyllgor wedi'i roi o dan reol 9(1)(b).

**Dyddiad y cyfarfod**

.

11. Rhaid i'r cyfarfod y cyfeirir ato yn rheol 10 gael ei gynnal heb fod yn gynharach na 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad sy'n ofynnol o dan baragraff (c) o'r rheol honno i'r apelydd neu i'r ceisydd.

**Adroddiad asesu**

12. Rhaid i bob asesydd a benodir o dan reol 9, unwaith y bydd wedi cwblhau ei asesiad, anfon adroddiad o'r asesiad at -

(a) y cofrestrydd; a'r

(b) apelydd neu'r ceisydd.

**Methu â chyflwyno neu gydymffurfio ag asesiad**

13. Pan fo apelydd neu geisydd wedi methu â chyflwyno, neu gydweithredu ag, unrhyw archwiliad y mae'n ofynnol neu y cyfarwyddir ei gynnal o dan reol 9, rhaid i'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru ddod i unrhyw gasgliadau sy'n ymddangos yn briodol iddynt mewn perthynas â'i apêl neu gais.

## RHAN 4

## GWRANDAWIADAU'R PWYLLGOR APELIADAU COFRESTRU APELYDDION AC YMGEISWYR

**Cynrychiolaeth**

14. (1) Bydd gan bob parti i'r achos sydd i'w gynnal gerbron y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru hawl i gael ei glywed mewn unrhyw wrandawiad yn yr achos hwnnw gan y Pwyllgor.

(2) Bydd gan bob parti yn yr achos hawl i gael eu cynrychioli mewn unrhyw wrandawiad o'r fath gan -

(a) berson sydd â chymhwyster cyffredinol (o fewn ystyr adran 71 Deddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990);

(b) adfocad yn yr Alban, neu gyfreithiwr sydd â hawl i ymddangos yn Llys y Sesiwn a'r Uchel Lys Cyfiawnder;

(c) aelod o Far Gogledd Iwerddon neu Gyfreithiwr Goruchaf Lys Gogledd Iwerddon; neu

(d) yn achos yr apelydd neu'r ceisydd, unrhyw un o'r canlynol -

(i) cynrychiolydd unrhyw gorff proffesiynol y mae'n aelod ohono,

(ii) pan fo'r apelydd neu'r ceisydd yn gorff corfforedig, yn swyddog cyfrifol i'r corff corfforedig, neu

(iii) os yw'r apelydd neu'r ceisydd yn gofyn am hynny ac mae'r Pwyllgor yn cytuno, unrhyw berson addas arall.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), os nad yw apelydd unigol neu geisydd unigol yn cael ei gynrychioli, caiff unrhyw berson fynd gydag ef a'i gynghori, ar yr amod na fydd gan berson o'r fath yr hawl i annerch y Pwyllgor heb eu caniatâd.

.

(4) Ni fydd gan berson sy'n rhoi tystiolaeth mewn gwrandawiad, heb ganiatâd y Pwyllgor, hawl i gynrychioli neu fynd gyda'r apelydd neu'r ceisydd i'r gwrandawiad.

**Achosion yn absenoldeb apelydd neu geisydd**

15. Os nad yw'r apelydd neu'r ceisydd yn bresennol nac yn cael ei gynrychioli mewn gwrandawiad, caiff y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru, serch hynny, fwrw ymlaen os -

(a) maent wedi eu bodloni bod pob ymdrech resymol wedi ei gwneud i hysbysu'r apelydd neu'r ceisydd o'r gwrandawiad; a

(b) gan roi sylw i unrhyw resymau dros absenoldeb a ddarparwyd gan yr apelydd neu gan y ceisydd, eu bod wedi eu bodloni ei bod er budd y cyhoedd i fwrw ymlaen.

**Cyplysiad**

16. (1) Os bodlonir yr amodau ym mharagraff (2), gan yr ymatebydd wneud cais i'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru am gyfarwyddyd i gynnal un gwrandawiad mewn perthynas â -

(a) dau neu ragor o apelyddion, neu

(b) dau neu ragor o

ymgeiswyr. (2) Yr amodau yw -

(a) bod pob ymdrech resymol wedi ei gwneud i hysbysu pob apelydd neu geisydd o'r gwrandawiad y mae'r cais o dan baragraff (1) i'w benderfynu ynddo; a

(b) bod pob apelydd neu geisydd yn cael cynnig cyfle i gael ei glywed ar y cais.

(3) Gall y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru, pan ellir cyfiawnhau hynny, gyfarwyddo bod un gwrandawiad yn cael ei gynnal mewn perthynas â dau neu ragor o apelyddion neu ddau neu ragor o ymgeiswyr a, phan roddir cyfarwyddyd o'r fath -

(a) bydd y Rheolau hyn yn effeithiol mewn perthynas â'r gwrandawiad gyda'r addasiadau angenrheidiol; a

(b) bydd pob apelydd neu geisydd yn gallu arfer unrhyw rai o'r hawliau a roddir iddo o dan y Rheolau hyn pa un a yw unrhyw berson arall yn dymuno arfer yr hawl honno ai peidio.

**Gwrandawiadau cyhoeddus**

17. (1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (5) isod, cynhelir gwrandawiadau gerbron y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru yn gyhoeddus.

(2) Caiff y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r achos, neu unrhyw ran o'r achos, pan fo'r Pwyllgor o'r farn y byddai gwaharddiad o'r fath yn briodol, gan ystyried -

(a) buddiannau unrhyw glaf neu dyst dan sylw;

(b) buddiannau'r apelydd neu'r ymgeisydd; a'r

.

(c) holl amgylchiadau, gan gynnwys budd y cyhoedd.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru eistedd yn breifat pan fyddant yn ystyried iechyd corfforol neu feddyliol yr apelydd neu'r ceisydd.

(4) Pan fo’r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru yn ystyried materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (3), gallant gyfarfod yn gyhoeddus os byddant yn ystyried y byddai’n briodol gwneud hynny o ystyried y materion a nodir ym mharagraff (2)(a) i (c).

(5) Caiff y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru ar unrhyw adeg drafod yn absenoldeb y partïon, eu cynrychiolwyr a’r cyhoedd.

**Gwahardd o wrandawiadau**

18. Caiff y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru wahardd o'r gwrandawiad cyfan neu unrhyw ran o wrandawiad, unrhyw berson (gan gynnwys parti neu ei gynrychiolydd) y mae ei ymddygiad, ym marn y Pwyllgor, wedi tarfu ar yr achos neu'n debygol o amharu arno.

**Gohirio**

19. (1) Ar unrhyw adeg, gall parti wneud cais i’r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru

(2) Gwrandewir cais o’r fath naill ai yn y gwrandawiad lle mae’r cais yn cael ei wneud neu, os gwneir y cais mewn ffordd mewn gwrandawiad, ar y dyddiad nesaf y bydd y Pwyllgor yn eistedd.

20. (1) Ar ôl gwrando cais o dan reol 19, neu drwy gynnig ei hun, caiff y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru ohirio gwrandawiad.

(2) Wrth gyhoeddi eu penderfyniad, bydd y Pwyllgor, os bydd yn caniatáu’r cais, yn pennu dyddiad newydd ar gyfer y gwrandawiad.

21. Pan fydd y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru yn penderfynu gohirio gwrandawiad o dan reol 20, rhaid i'r cofrestrydd gyflwyno i'r apelydd neu'r ceisydd hysbysiad o'r gohiriad a dyddiad newydd y gwrandawiad.

**Derbynioldeb tystiolaeth**

22. (1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), caiff y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru dderbyn unrhyw dystiolaeth y maent yn ei hystyried yn deg ac yn berthnasol i'r achos ger eu bron, pa un a fyddai tystiolaeth o'r fath yn dderbyniol mewn llys barn ai peidio.

(2) Pan na fyddai tystiolaeth yn dderbyniol mewn achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr, ni fydd y Pwyllgor yn derbyn tystiolaeth o’r fath oni bai, ar gyngor y cynghorydd cyfreithiol, eu bod yn fodlon bod eu dyletswydd i ymchwilio’n briodol i’r achos ger eu bron yn golygu bod ei derbynioldeb yn ddymunol.

(3) Dim ond gyda chaniatâd y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru a roddwyd yn y gwrandawiad y derbynnir tystiolaeth nas datgelwyd yn unol â rheol 31.

.

**Tystion agored i niwed**

23. (1) Mewn achosion gerbron y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru, gellir trin y canlynol, os yw ansawdd eu tystiolaeth yn debygol o gael ei effeithio'n andwyol o ganlyniad i hynny, fel tyst agored i niwed -

(a) unrhyw dyst dan 17 oed adeg y gwrandawiad;

(b) unrhyw dyst ag anhwylder meddwl o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983;

(c) unrhyw dyst gyda sylweddol arno mewn perthynas â deallusrwydd a gweithredu cymdeithasol;

(d) unrhyw dyst ag anableddau corfforol sydd angen cymorth i roi tystiolaeth;

(e) unrhyw dyst, lle bo'r honiad yn erbyn y cofrestrai o natur rywiol a'r tyst oedd y dioddefwr honedig; ac

(f) unrhyw dyst sy'n cwyno am frawychu.

(2) Yn amodol ar gyngor y cynghorydd cyfreithiol, ac ar wrando ar sylwadau gan y partïon, caiff y Pwyllgor fabwysiadu unrhyw fesurau y mae'n eu hystyried yn ddymunol i'w alluogi i dderbyn tystiolaeth gan dyst agored i niwed.

(3) Caiff mesurau a fabwysiedir gan y Pwyllgor gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i -

(a) defnyddio cysylltiadau fideo;

(b) defnyddio tystiolaeth wedi'i recordio ymlaen llaw fel prif dystiolaeth tyst, ar yr amod bob amser bod tyst o'r fath ar gael yn y gwrandawiad i'w groesholi a'i holi gan y Pwyllgor;

(c) defnyddio dehonglwyr (gan gynnwys arwyddwyr a chyfieithwyr) neu gyfryngwyr;

(d) defnyddio sgriniau neu unrhyw fesurau eraill y mae'r Pwyllgor o'r farn eu bod yn angenrheidiol o dan yr amgylchiadau er mwyn atal -

(i) datgelu pwy yw'r tyst i'r wasg neu i'r cyhoedd; neu

(ii) mynediad i'r tyst gan yr apelydd neu'r ceisydd; a

(iii) gwrando tystiolaeth gan y Pwyllgor yn breifat. (4) Pan

fo'r -

(a) dystiolaeth sydd i'w rhoi gan dyst yn ymwneud â ffeithiau sy'n rhywiol eu natur;

(b) bod y tyst yn ddioddefwr honedig; a

(c) mae'r apelydd neu'r ceisydd yn gweithredu'n bersonol,

ni chaiff yr apelydd na'r ceisydd, heb ganiatâd ysgrifenedig y tyst, groesholi'r tyst yn bersonol.

.

(5) Yn yr amgylchiadau a nodir ym mharagraff (4), yn absenoldeb cydsyniad ysgrifenedig, rhaid i'r apelydd neu'r ceisydd, o leiaf 7 niwrnod cyn i'r gwrandawiad, benodi person â chymwysterau cyfreithiol i groesholi'r tyst ar ei ran, ac yn niffyg hynny, rhaid i'r Cyngor benodi'r cyfryw berson ar ran yr apelydd neu'r ceisydd.

**Tystiolaeth ar lw**

24. Bydd yn ofynnol i dystion dyngu llw, neu gadarnhau, cyn rhoi tystiolaeth lafar mewn gwrandawiad.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

25. Bydd y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru yn cael ei gynghori gan gynghorydd cyfreithiol a fydd yn -

(a) bresennol ym mhob gwrandawiad;

(b) cynghori'r Pwyllgor ar unrhyw faterion cyfreithiol, tystiolaeth neu weithdrefn sy'n cael eu cyfeirio ato gan y Pwyllgor;

(c) cynghori'r Pwyllgor ar fater cyfreithiol lle mae'n ymddangos iddo, heb ei ymyriad, fod posibilrwydd y gwneir camgymeriad cyfreithiol;

(d) ymyrryd i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw afreoleidd-dra sy'n dod i'w sylw o ran y ffordd y mae'r achos yn cael ei gynnal;

(e) sicrhau bod -

(i) y cyngor a roddir i'r Pwyllgor o dan baragraff (b) yn cael ei gynnig gan y cynghorydd cyfreithiol ym mhresenoldeb y partïon sy'n mynychu'r gwrandawiad, neu

(ii) os yw'r cyngor yn cael ei roi ar ôl i'r Pwyllgor ddechrau ystyried ei ganfyddiadau, bod pob parti o'r fath yn cael gwybod am y cyngor a roddwyd; ac

(f) os yw'r Pwyllgor yn gofyn am hynny, rhoi cyngor ar ddrafftio penderfyniadau'r Pwyllgor.

**Cynghorwyr clinigol**

26. Pan fydd iechyd corfforol neu feddyliol apelydd neu ymgeisydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru, bydd y Pwyllgor yn cael ei gynghori gan gynghorydd clinigol a fydd yn -

(a) bresennol yn y gwrandawiad lle mae iechyd corfforol neu feddyliol yr apelydd neu'r ceisydd i'w ystyried;

(b) cynghori'r Pwyllgor ar arwyddocâd unrhyw dystiolaeth sydd ger eu bron sy'n ymwneud ag iechyd corfforol neu iechyd meddwl yr apelydd neu'r ceisydd; a

(c) sicrhau bod -

(i) y cyngor a roddir i'r Pwyllgor o dan baragraff (b) yn cael ei gynnig gan y cynghorydd clinigol ym mhresenoldeb y partïon sy'n mynychu'r gwrandawiad, neu

.

(ii) os yw'r cyngor yn cael ei roi ar ôl i'r Pwyllgor ddechrau ystyried ei ganfyddiadau, bod pob parti o'r fath yn cael gwybod am y cyngor a roddwyd.

**Cynghorwyr Arbenigol**

27. Pan fydd cynghorydd arbenigol wedi'i benodi mewn perthynas â mater sydd i'w ystyried mewn gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru, rhaid i'r cynghorydd -

(a) fod yn bresennol ym mhob gwrandawiad;

(b) cynghori'r Pwyllgor ar faterion sy'n ymwneud â'r arbenigedd y'i penodwyd ar ei gyfer; a

(c) sicrhau bod -

(i) y cyngor a roddir i'r Pwyllgor o dan baragraff (b) yn cael ei gynnig gan y cynghorydd arbenigol ym mhresenoldeb y partïon sy'n mynychu'r gwrandawiad, neu

(ii) os yw'r cyngor yn cael ei roi ar ôl i'r Pwyllgor ddechrau ystyried ei ganfyddiadau, bod pob parti o'r fath yn cael gwybod am y cyngor a roddwyd.

## RHAN 5

## GWEITHDREFN A THREFN ACHOSION: APELYDDION AC YMGEISWYR

**Hysbysu ynghylch dyddiad y gwrandawiad: apelyddion**

28. Pan fo apelydd wedi cyflwyno hysbysiad o apêl i'r cofrestrydd yn unol â pharagraff 4(3) neu (4) o Atodlen 1A (apeliadau o benderfyniad cofrestru apeliadwy), rhaid i'r cofrestrydd gyflwyno hysbysiad i'r apelydd -

(a) am ddyddiad y

gwrandawiad; (b) yn hysbysu'r

apelydd am -

(i) ei hawl i fod yn bresennol yn y gwrandawiad ac i gael ei gynrychioli yn y gwrandawiad yn unol â rheol 14,

(ii) pŵer y [Pwyllgor Apeliadau Cofrestru]**1** i fwrw ymlaen yn ei absenoldeb o dan reol 15,

(iii) ei hawl i gyflwyno tystiolaeth yn unol â Rheol 34 ac i alw a chroesholi tystion.

(iv) pwerau gwaredu'r Pwyllgor o dan baragraff 4(7) Atodlen 1A;

(c) gofyn i'r apelydd hysbysu'r cofrestrydd, o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar ddyddiad yr hysbysiad, a yw'n dymuno bod yn bresennol yn y gwrandawiad; a

.

.

1 Mae'r fersiwn swyddogol o'r rheolau yn nodi, mewn camgymeriad, "Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer"

.

.

(d) gwahodd yr apelydd, os yw'n dewis peidio â bod yn bresennol yn y gwrandawiad, i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r cofrestrydd eu derbyn heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod cyn y gwrandawiad.

**Hysbysu ynghylch dyddiad y gwrandawiad: ymgeiswyr**

29. (1) Yn ddarostyngedig i adran 13K(4) a (10), pan fo cais wedi ei gyfeirio at y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru o dan adran 13K(3) (cyfeiriad gan gofrestrydd at unrhyw gais i adfer cofrestriad ar ôl dileu neu waredu yn unol â chyfarwyddyd y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer), rhaid i’r cofrestrydd roi hysbysiad

(a) ddyddiad y gwrandawiad; (b)

yn hysbysu’r ymgeisydd am -

(i) yr wybodaeth a nodir yn rheol 28(b)(i) i (iii), a

(ii) pwerau gwaredu’r Pwyllgor o dan adran 13K(6);

(c) gofyn i'r ceisydd hysbysu'r cofrestrydd, o fewn y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar ddyddiad yr hysbysiad, a yw'n dymuno bod yn bresennol yn y gwrandawiad; a

(d) gwahodd yr ymgeisydd, os yw'n dewis peidio â bod yn bresennol yn y gwrandawiad, i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r cofrestrydd eu derbyn heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod cyn y gwrandawiad.

(e) pan fo’r ymgeisydd wedi gwneud cais aflwyddiannus blaenorol, ei hysbysu o bŵer y Pwyllgor i atal am gyfnod amhenodol ei hawl i wneud ceisiadau pellach am adferiad o dan adran 13K(8); a

(f) phan fo’r ceisydd wedi gwneud cais aflwyddiannus blaenorol ac yn dewis peidio â bod yn bresennol yn y gwrandawiad, ei wahodd i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar fater atal dros dro am gyfnod amhenodol ei hawl i wneud ceisiadau pellach, i’w derbyn gan y cofrestrydd heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod cyn y gwrandawiad.

**Dyddiad y gwrandawiad: apelyddion ac ymgeiswyr**

30. Ac eithrio gyda chytundeb yr apelydd neu'r ceisydd, ni chynhelir y gwrandawiad yn gynharach na 28 diwrnod ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad o ddyddiad y gwrandawiad i'r apelydd neu'r ceisydd o dan reol 28 neu 29.

**Darparu gwybodaeth ymlaen llaw**

31. (1) Mae'r rheol hon yn gymwys i -

(a) gopïau o unrhyw ddatganiadau neu adroddiadau a wneir gan dystion; a

(b) chopïau o unrhyw dystiolaeth ddogfennol,

y mae parti’n bwriadu dibynnu arni ac y mae’n cytuno y gellir ei datgelu i’r parti arall ac i’r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru cyn y gwrandawiad.

.

(2) Heb fod yn hwyrach na 14 diwrnod cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y gwrandawiad, rhaid i bob parti ddarparu i'r llall y copïau o ddogfennau y mae'r rheol hon yn gymwys iddynt.

**Copïau pwyllgor o ddogfennau**

32. Heb fod yn hwyrach na 7 diwrnod cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y gwrandawiad, rhaid i'r cofrestrydd ddarparu i'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru gopïau o'r holl ddogfennau a ddarparwyd o dan reol 31.

**Trefn yr achos**

33. (1) Caiff yr apelydd neu'r ceisydd annerch y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru a chaiff alw tystion a chyflwyno tystiolaeth ddogfennol a thystiolaeth arall i gefnogi hynny.

(2) Caniateir i unrhyw dyst sy'n rhoi tystiolaeth lafar o dan baragraff (1) gael ei groesholi gan yr ymatebydd a'i ail-holi gan yr apelydd neu'r ceisydd.

34. (1) Ar ôl i'r apelydd neu'r ceisydd gyflwyno tystiolaeth (os oes tystiolaeth), caiff yr atebydd annerch y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru a gall alw tystion a chyflwyno tystiolaeth ddogfennol a thystiolaeth arall i gefnogi hynny.

(2) Caniateir i unrhyw dyst sy'n rhoi tystiolaeth lafar o dan baragraff (1) gael ei groesholi gan yr apelydd neu'r ceisydd a'i ail-holi gan yr ymatebydd.

**Tystiolaeth sy'n gwrthbrofi**

35. (1) Caiff yr apelydd neu'r ceisydd, gyda chaniatâd y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru, alw tystion a chyflwyno tystiolaeth ddogfennol a thystiolaeth arall i wrthbrofi unrhyw fater a godir gan yr ymatebydd.

(2) Caniateir i unrhyw dyst sy'n rhoi tystiolaeth lafar o dan baragraff (1) gael ei groesholi gan yr ymatebydd a'i ail-holi gan yr apelydd neu'r ceisydd.

**Cwestiynau**

36. Yn ogystal ag unrhyw gwestiwn a ofynnwyd i unrhyw dyst yn unol â rheolau 33 i 35, gellir gofyn cwestiynau hefyd gan -

(a) aelod o'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru; a

(b) gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor - (i) cynghorydd

cyfreithiol,

(ii) cynghorydd clinigol, pan benodir un, ar faterion cysylltiedig ag iechyd corfforol neu feddyliol y cofrestrai, a

(iii) cynghorydd arbenigol, pan benodir un, ar faterion sy'n gysylltiedig â'r arbenigedd y'i penodwyd ar ei chyfer.

**Cyflwyniadau**

.

37. (1) Ar ôl cyflwyno tystiolaeth, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth sy'n gwrthbrofi, bydd gan yr apelydd neu'r ceisydd hawl i annerch y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru.

(2) Yn dilyn unrhyw anerchiad a wneir gan yr apelydd neu'r ceisydd, bydd gan yr ymatebydd hawl i annerch y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru.

## RHAN 6

## GORCHMYNION Y PWYLLGOR APELIADAU COFRESTRU: APELYDDION AC YMGEISWYR

### Pleidleisio

38. (1) Mae penderfyniadau'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru yn cael eu gwneud gan fwyafrif syml.

(2) Ni chaiff unrhyw Gadeirydd y Pwyllgor ddefnyddio pleidlais

fwrw. (3) Ni chaiff unrhyw aelod o'r Pwyllgor ymatal rhag

pleidleisio.

(4) Lle bo'r pleidleisiau'n gyfartal, bydd y Pwyllgor yn penderfynu ar y mater dan sylw yn erbyn yr apelydd neu'r ceisydd.

### Penderfyniad neu gyfarwyddyd y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru

39. Caiff y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru -

(a) wneud penderfyniad o dan baragraff 4(7) Atodlen 1A (apeliadau o benderfyniad cofrestru apeliadwy); neu

(b) penderfynu a yw'n briodol gwneud unrhyw gyfarwyddyd o dan adran 13K(6) neu (8) (cyfarwyddyd i adfer enw person ar gofrestr neu gofnod sy'n ymwneud ag arbenigedd).

### Penderfyniad ysgrifenedig

40. Bydd y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru yn rhoi cofnod ysgrifenedig i'r partïon o'u penderfyniad dan y Rheolau hyn, ynghyd â'r rhesymau dros unrhyw benderfyniad a wnaed.

### Costau a threuliau

41. Caiff y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru, os gwêl yn dda, asesu'n ddiannod gostau unrhyw barti yn yr achos a gorchymyn unrhyw barti i dalu'r cyfan neu ran o gostau neu dreuliau unrhyw barti arall.

42. Os yw'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru yn ystyried gwneud gorchymyn dan reol 41 ac yn ystyried gwneud dyfarniad yn erbyn apelydd unigol neu ymgeisydd unigol, byddant yn ystyried ei allu i dalu.

### Cyfnod y Taliad

43. Os yw'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru wedi gwneud gorchymyn o dan reol 41, gallant bennu o fewn pa gyfnod y mae'r costau neu'r treuliau i'w talu.

## RHAN 7

.

.

**COFNOD O WRANDAWIAD A CHYFLWYNO HYSBYSIADAU A DOGFENNAU Cofnod o Wrandawiad**

44. Rhaid cymryd cofnod gair-am-air ar ffurf ysgrifenedig neu electronig o bob gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru.

**Cyflwyno dogfennau**

45. (1) Rhaid i unrhyw hysbysiad o wrandawiad y mae'n ofynnol ei gyflwyno i apelydd neu geisydd o dan y Rheolau hyn gael ei gyflwyno yn unol ag adran 23A (cyflwyno hysbysiad).

(2) Os yw'r apelydd neu'r ceisydd yn cael ei gynrychioli gan dwrnai, rhaid cyflwyno unrhyw hysbysiad o'r fath yng nghyfeiriad ymarfer y cyfreithiwr.

(3) Caniateir i unrhyw hysbysiad neu ddogfen arall sydd i'w chyflwyno i berson o dan y Rheolau hyn gael ei hanfon drwy'r post cyffredin.

(4) Gellir profi y cyflwynwyd unrhyw hysbysiad neu ddogfen o dan y Rheolau hyn gyda -

(a) chadarnhad postio a roddir gan neu ar ran y Swyddfa Bost, neu gwmni post neu wasanaeth danfon arall; neu

(b) ddatganiad wedi'i lofnodi gan unrhyw berson sy'n cyflwyno'r hysbysiad neu'r ddogfen â llaw.

.